**Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**HSS-18-02(p.7)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **Dydd Mercher 23 Hydref 2002** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Bwyllgora 3&4, Cynulliad Cenedlaethol Cymru** |
| **Teitl:** | **Fferyllwyr Ysbytai** |

**Diben**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am y camau a gymerwyd i fynd i'r afael â'r prinder fferyllwyr ysbytai. Trafodwyd sefyllfa'r gweithlu gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 13 Mai 2002. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r hyn a wnaed eisoes.

**Crynodeb**

2. Clustnodwyd nifer o gamau gweithredu allweddol i fynd i'r afael â'r prinder Fferyllwyr Ysbytai, ac roedd y rhain yn cynnwys:

Y Awtomeiddio'r broses ddosbarthu
Y Buddsoddi mewn hyfforddi staff technegol a staff cynnal.
Y Cryfhau'r seilwaith hyfforddiant.
Y Cyflwyno system datblygu rheolaeth

Mae'r papur yn disgrifio'r camau a gymerwyd hyd yma ar y materion hyn.

**Amseru**

3. Mae'r papur yn cael ei gyflwyno ar gais y Pwyllgor.

**Cefndir**

4. Ar ôl y drafodaeth yn y cyfryngau, cyfarfu'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol â chynrychiolwyr Grp y Prif Fferyllwyr ar 15 Ebrill 2002 i drafod yr heriau sy'n wynebu gwasanaethau

fferyllol mewn ysbytai ac i ymchwilio i atebion posibl.

**Materion i'w Hystyried**

5. Clustnodwyd pedwar maes allweddol i weithredu arnynt:

*Awtomeiddio'r broses ddosbarthu.*

Mae angen awtomeiddio'r broses ddosbarthu er mwyn gwneud defnydd effeithiol o'r amrywiaeth o sgiliau, lleihau camgymeriadau wrth ddosbarthu a'r amser dosbarthu. Mae llawer i'w ddweud dros gymryd agwedd Cymru gyfan. Gallai fod yn brosiect sy'n cael ei reoli a'i gyflwyno ar hyd a lled Cymru dros gyfnod o dair blynedd gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael (o ran personnel technegol a chyllid). Byddai'n gwella delwedd y gwasanaeth ac yn dangos ymrwymiad y Cynulliad i foderneiddio'r GIG. Byddai'n gwneud Cymru yn fwy deniadol i ddarpar weithwyr ac yn helpu i gadw staff yn y gwasanaeth.

*Buddsoddi mewn hyfforddi staff technegol a staff cynnal.*

Mae angen buddsoddi mewn hyfforddi staff technegol a staff cynnal.
Mae 1 fferyllydd i bob 1 technegydd yng Nghymru o gymharu ag 1 i bob 2 yn Lloegr. Bydd buddsoddi yn y grwp staffio hwn yn arwain at well amrywiaeth o sgiliau a datblygu staff yn fwy priodol yn unol â Strategaeth Adnoddau Dynol y Cynulliad ar gyfer y GIG.

*Cryfhau'r seilwaith hyfforddiant.*

Mae angen cryfhau'r seilwaith hyfforddiant. Prin yw'r llefydd hyfforddiant yn y gwasanaeth a bydd angen cryfhau'r seilwaith cyn y gellir rhoi rhaglenni hyfforddiant ychwanegol yn eu lle. Nid yw'r gwasanaeth, i bob golwg, wedi cael digon o adnoddau ar gyfer yr elfen hon. Ar hyn o bryd, mae'r Is-adran Adnoddau Dynol yn ystyried gwneud yr un ddarpariaeth ar gyfer Fferylliaeth ag a wneir ar gyfer grwpiau proffesiynol eraill lle mae'r cyllid ar gyfer y seilwaith wedi'i gynyddu yn unol â'r cynnydd yn y nifer sy'n hyfforddi.

Ers i'r mater hwn gael ei drafod gyntaf, mae'r gwasanaeth wedi profi anawsterau o ran cynnal y seilwaith bresennol er mwyn cefnogi nifer y lleoliadau sydd ar gael ar hyn o bryd.

Mae rhai Ymddiriedolaethau GIG wedi dangos na allant wneud hynny ac maent wedi cwtogi ar nifer y lleoliadau sydd ar gael.

*Cyflwyno system datblygu rheolaeth*

Mae angen system datblygu rheolaeth i sicrhau bod dilyniant o ran y cynllunio. Mae proffil oedran y Prif Fferyllwyr a'r Pen Fferyllwyr Arbenigol yn golygu bod gwir angen am gynllunio'r dilyniant i sicrhau bod fferyllwyr gyda'r sgiliau a'r profiad priodol yn camu i'r swyddi hyn pan ddônt yn wag.
Ar hyn o bryd, nid oes rhaglen i gefnogi hyn.

Mae trafodaeth wedi'i chynnal gyda'r Is-adran Adnoddau Dynol gyda'r nod o gysylltu â'r Ganolfan Arweinyddiaeth Iechyd yng Nghymru i drafod y posibilrwydd o ddatblygu rhaglen o'r fath.

**Ystyriaeth Bellach**

6. Mae ‘Remedies for Success – a strategy for Pharmacy in Wales’ yn cynnwys adran ar y gweithlu a materion perthnasol. Ymgynghorir ynghylch y ddogfen hon ar hyn o bryd.

7. Mae ‘Pharmacy Workforce in the new NHS’, a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan yr Adran Iechyd, yn cael ei thrafod yng Nghymru hefyd gan y byddai unrhyw newidiadau i ofynion Deddf Meddygaeth 1968 o ran oruchwyliaeth yn berthnasol ledled y DU os cânt eu cymeradwyo gan y Senedd. Cyfrifoldeb y Cynulliad ynghyd â GIG Cymru fydd gweithredu'r dulliau newydd o weithio o fewn y fframwaith diwygiedig.

8. Yn ddiweddar, ffurfiodd y Gymdeithas Fferyllol Frenhinol Grwp Cynghorol ar Bolisi a Chynllunio'r Gweithlu. Gofynnir i’r Grwp ddatblygu system flaenweithgar ac ymatebol ar gyfer trafod anghenion y gweithlu yn y dyfodol mewn fferylliaeth a gwneud argymhellion ynghylch sut y gellir rheoli'r cyflenwad o fferyllwyr a'r galw amdanynt yn y dyfodol. Cynrychiolir y Cynulliad ar y Grwp gan swyddogion o'r Is-adrannau Adnoddau Dynol a Fferyllol.

**Canlyniadau Ariannol**

9. Cytunir ar y cynllun gweithredu ar yr amod bod cyllid ar gael ar gyfer y maes hwn o fewn setliad Cyllideb Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

**Cydymffurfio**

10. Mae Gwasanaethau Fferyllol mewn Ysbytai yn cael eu darparu o dan y swyddogaethau a gynhwysir yn Adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a drosglwyddwyd i'r Cynulliad ac a ddirprwywyd i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nid oes unrhyw faterion yn ymwneud â rheoleidd-dra neu briodoldeb. Mae Swyddfa Cydymffurfiaeth y Cynulliad wedi gweld y cyflwyniad hwn ac mae'n fodlon ag ef (Cyf LPR: 248/10/02).

**Camau i'w Cymryd**

11. Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r papur.

**Jane Hutt**

**Y Gweinidog dros Iecyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

**Swyddog Cyswllt:** Carwen Wynne Howells, Prif Gynghorydd Fferyllol, Ffôn: 029 2082 3091.